



The Planning Inspectorate  
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010

---

## Arweiniad ar y Weithdrefn Apelio ar gyfer Trwyddedau Amgylcheddol



INVESTOR IN PEOPLE



Mai 2013

## **CYNNWYS**

Paragraff

### **Canllawiau ar y weithdrefn apelio**

Cyflwyniad	1
Seiliau apelio	6
Cyn gwneud apêl	7
Pwy sy'n penderfynu ar eich apêl?	8

### **Sut mae gwneud apêl**

Terfyn amser ar gyfer cyflwyno apêl	16
Effaith gwneud apêl	18
Camau wedi i apêl ddod i law	23

### **Gweithdrefnau apêl**

Sylwadau ysgrifenedig	28
Gwrandawiadau	34
Ymchwiliadau	40

### **Penderfyniadau ar apeliadau**

Penderfyniadau'r Arolygydd	46
Penderfyniadau gan Weinidogion Cymru	47

### **Pwyntiau eraill**

Tynnu apeliadau yn eu hôl	48
Apeliadau cyfrinachedd masnachol	49
Aseswyr	52
Costau	54
Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol	58
Cwynion am y penderfyniad	65
Cwynion am yr Arolygiaeth Gynllunio	68

## **ATODIADAU**

**Atodiad 1** – Cefndir cyfreithiol

**Atodiad 2** – Achosion wedi'u hadfer (yn cynnwys meini prawf)

**Atodiad 3** – Siart Llif y Weithdrefn

# **RHEOLIADAU CANIATÁU AMGYLCHEDDOL (CYMRU A LLOEGR) 2010**

## **TRWYDDEDAU AMGYLCHEDDOL (IPPC, LA-IPPC ac LA-PPC)**

**Noder: Mae'r wybodaeth a geir yn y canllawiau hyn yn berthnasol i weithdrefnau yng [Nghymru yn unig](#).**

**Ar 1 Ebrill 2013, rhoddodd Asiantaeth yr Amgylchedd y gorau i weithredu a throsglwyddwyd eu swyddogaethau i Cyfoeth Naturiol Cymru.**

**Roedd y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi ond nid oes iddi statws cyfreithiol.**

### **ARWEINIAD AR Y WEITHDREFN APELIO**

#### **Cyflwyniad**

1. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn Asiantaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Ein prif waith yw prosesu apelïadau cynllunio a gorfodi a chynnal ymchwiliadau i gynlluniau datblygu lleol. Rydym hefyd yn ymdrin ag amrywiaeth eang o waith achosion apêl arall gan gynnwys apelïadau amgylcheddol a gorchmynion hawliau tramwy. Byddwn yn ymdrin ag apelïadau yng Nghymru o'n swyddfa yng Nghaerdydd ac ag apelïadau yn Lloegr o'n swyddfa ym Mryste.
2. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn ymdrin â'r gweithdrefnau ynghylch trwyddedau amgylcheddol (yn cynnwys gosod amodau, hysbysiadau gorfodi, hysbysiadau dirymu, hysbysiadau atal dros dro, hysbysiadau gwahardd a hysbysiadau cau).
3. Gosodir y gweithdrefnau apelio sydd i'w dilyn ger bron o dan Atodlen 1 Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010, OS 2010 Rhif 675, yn neilltuoel rheoliad 31 ac Atodlen 6. Dylid ymgynghori â'r rheoliadau hyn cyn cyflwyno apêl.
4. Gall gweithredwyr y categoreiddir eu safleoedd o dan Atodlen 1 Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010, OS 2010 Rhif 675, apelio o dan reoliad 31 at Weinidogion Cymru yn erbyn rhai penderfyniadau a wneir gan y rheoleiddiwr perthnasol. Asiantaeth yr Amgylchedd yw'r rheoleiddiwr ar gyfer safleoedd Rhan A1 (cyfwerth ag IPPC o dan Atodlen 7 y rheoliadau) a'r awdurdod lleol yw'r rheoleiddiwr ar gyfer safleoedd Rhan A2 (cyfwerth ag LA-IPPC o dan Atodlen 7) a safleoedd Rhan B (cyfwerth ag LA-PPC o dan Atodlen 8), mewn perthynas ag allyriadau i'r awyr unig.
5. Mae Gweinidogion Cymru wedi dirprwyo'r grym i benderfynu ar apelïadau i Arolygwyr (fel y rhoddir o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, Adran 114 ac Atodlen 20).

## Seiliau Apelio

6. Mae Rheoliad 31 yn rhoi'r hawl i apelio i ymgeisydd yn erbyn penderfyniad a wnaed gan y rheoleiddiwr o dan yr amgylchiadau canlynol:
- i. gwrthod â chaniatáu cais am drwydded amgylcheddol;
  - ii. os yw'r ymgeisydd wedi ei dramgwyddo gan benderfyniad i osod amod trwydded amgylcheddol yn dilyn ei gais;
  - iii. os yw'r ymgeisydd wedi ei dramgwyddo gan benderfyniad i osod amod ar drwydded amgylcheddol sydd eisoes yn bod -
    - i. o ganlyniad i amrywiad o du'r rheoleiddiwr, neu
    - ii. i ystyried trosglwyddo rhannol, dirymu rhannol neu ildio rhannol ar y drwydded amgylcheddol honno.
  - iv. os yw'r ymgeisydd wedi ei dramgwyddo gan y "dilead tybiedig" ar y cais a wnaed ganddynt yn briodol, pan na fydd gwybodaeth bellach wedi ei chynnig o dan baragraff 4(2) Rhan 1 Atodlen 5;
  - v. os yw'r ymgeisydd wedi ei dramgwyddo gan benderfyniad ynghylch trwydded amgylcheddol a ddelir gan yr unigolyn hwnnw i beidio ag awdurdodi'r weithdrefn cau a grybwyllir yn -
    - i. Erthygl 13 y Gyfarwyddeb Tirlenwi ar ôl cais y cyfeirir ato yn Erthygl 13(a)(ii) y Gyfarwyddeb honno, neu
    - ii. Erthygl 12 y Gyfarwyddeb Gwastraff Cloddio ar ôl cais y cyfeirir ato yn Erthygl 12(2) (b) y Gyfarwyddeb honno.
  - vi. lle bydd yr awdurdod gorfodi wedi cyflwyno hysbysiad gorfodi, hysbysiad dirymu, hysbysiad gohirio, hysbysiad gwahardd, hysbysiad cau safle tirlenwi neu hysbysiad cau safle gwastraff cloddio.

## Cyn gwneud apêl

7. Cynghorir apelwyr i geisio datrys unrhyw anawsterau neu anghytundebau gyda'r rheoleiddiwr. Dim ond **pan fetha popeth arall** y dylid ymarfer yr hawl i apelio.

## Pwy sy'n penderfynu ar eich apêl?

8. Bydd y rhan fwyaf o apeliadau yn cael eu penderfynu gan Arolygydd, yn gweithredu fel dirprwy i Weinidogion Cymru o dan adran 114 Deddf yr Amgylchedd 1995.
9. Fodd bynnag, gall Gweinidogion Cymru gymryd drosodd ac "adfer" achos os yw'n neilltuol o bwysig neu ddadleuol (gweler Atodiad 2)<sup>1</sup>. Golyga hyn fod Arolygydd yn cynnal ymweliad â'r safle a / neu'n gwrandao ar y partïon ac yna'n ysgrifennu adroddiad yn rhoi argymhellion i hysbysu'r penderfyniad a wneir wedi hynny gan Weinidogion Cymru, yna byddwn

---

<sup>1</sup> Paragraff 13.5 dogfen ar y cyd Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) / Defra *Canllawiau Trwyddedu Amgylcheddol: Canllawiau Craidd*:  
<http://www.defra.gov.uk/environment/policy/permits/documents/ep2010guidance.pdf>

ni/byddant hwy yn dweud wrthy ch pam y bu i ni/iddynt hwy benderfynu ei "adfer".

## **SUT MAE GWNEUD APÊL**

10. Ni chodir tâl am gyflwyno apêl. Er nad oes gofyniad statudol i gyflwyno ffurflen apêl, gallwch gael gafael ar ffurflen apêl o'r cyfeiriad isod, neu gallwch ei llwytho i lawr oddi ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio<sup>2</sup>.

11. Mae'r ffurflen o gymorth i sicrhau eich bod yn cyflwyno'r holl wybodaeth angenrheidiol sydd arnom ei hangen inni allu mynd yn ein blaenau â'r apêl.

12. Er mwyn i apêl fod yn ddilys, mae gofyniad cyfreithiol ar yr apelwyr o dan Atodlen 6(2)(1) i ddarparu:

- i. hysbysiad ysgrifenedig o'r apêl;
- ii. datganiad am seiliau'r apêl;
- iii. datganiad yn nodi a ydych am i'r apêl gael ei thrin drwy'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig neu fel arall gael ei chlywed gan Arolygydd mewn gwrandawriad neu ymchwiliad;
- iv. copi o'r cais perthnasol (os oes un);
- v. copi o'r drwydded amgylcheddol berthnasol (os oes un);
- vi. copi o unrhyw ohebiaeth, cynlluniau a.y.y.b. sy'n berthnasol a gyfnewidwyd gyda'r rheoleiddiwr; a
- vii. chopi o'r penderfyniad neu hysbysiad sy'n destun yr apêl.

13. Dylai seiliau'ch apêl egluro, yn llawn, pam rydych wedi'ch tramgwyddo gan benderfyniad y rheoleiddiwr. Dylai ddisgrifio'r agweddau hynny ar y penderfyniad y byddech am eu newid a sut y dylid gweithredu'r newidiadau hynny.

14. Dylech hefyd ddatgan a fu unrhyw ran o'r wybodaeth a amgaeir gyda'r apêl yn destun cais aflwyddiannus am gyfrinachedd masnachol o dan reoliad 48, gan roi'r manylion perthnasol. Oni cheir gwybodaeth o'r fath, bydd pob dogfen a gyflwynir yn eiddo i'r cyhoedd ac ar gael i'w harchwilio. Mewn achosion lle mae'r apelydd yn ystyried y bydd materion cyfrinachedd yn codi yn ystod oes yr apêl, gall yr achos gael ei adfer i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru.

15. Dylid anfon yr Hysbysiad o Apêl at<sup>3</sup>:

Yr Arolygiaeth Gynllunio

---

<sup>2</sup> Gwybodaeth ar gael ar y dudalen a ganlyn:

[www.planning-inspectorate.gov.uk/cymru/wal/appeals/environmental\\_appeals/making\\_environmental\\_appeal\\_e.htm](http://www.planning-inspectorate.gov.uk/cymru/wal/appeals/environmental_appeals/making_environmental_appeal_e.htm)

<sup>3</sup> Ar gyfer apeliadau yn Lloegr, byddwch gystal ag anfon dogfennau'r apêl at:

Adeiladau'r Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3866  
Ffacs: 029 2082 5150  
E-bost: [wales@pins.gsi.gov.uk](mailto:wales@pins.gsi.gov.uk)

## **Rhaid i chi hefyd anfon copi o'ch apêl at y rheoleiddiwr perthnasol.**

### **Terfyn amser ar gyfer cyflwyno apêl**

16. Mae'n rhaid rhoi hysbysiad o apêl (h.y. a **dderbyniwyd** gan yr Arolygiaeth) oddi mewn i'r amserlenni canlynol:

- a. mewn perthynas ag apêl yn erbyn hysbysiad dirymu, **cyn** i'r hysbysiad dirymu ddod yn weithredol;
- b. mewn perthynas â chais a wnaed yn briodol o dan baragraff 4(2) Rhan 1 Atodlen 5, heb fod dim hwyrach na **15 diwrnod gwaith** ar ôl dyddiad yr hysbysiad pellach a gyflwynwyd gan yr awdurdod yn datgan bod y cais yn cael ei ystyried wedi ei dynnu'n ôl;
- c. mewn perthynas â hysbysiad gorfodi, amrywiad o du'r rheoleiddiwr, hysbysiad gohirio, hysbysiad cau safle gwastraff cloddio neu hysbysiad cau safle tirlenwi, heb fod dim llai na **2 fis** ar ôl dyddiad yr hysbysiad amrywio;
- d. mewn perthynas â hysbysiad gwahardd, heb fod yn hwyrach na **21 niwrnod** ar ôl dyddiad yr hysbysiad; neu
- e. mewn unrhyw achos arall, heb fod yn hwyrach na **6 mis** ar ôl dyddiad y penderfyniad neu'r penderfyniad tybiedig.

17. Ni chaiff apeliadau a wneir y tu allan i'r terfynau amser eu derbyn ond o dan amgylchiadau eithriadol dros ben i apeliadau a amlinellir rhwng 'b' ac 'e' uchod. Ni allwn dderbyn apeliadau yn erbyn hysbysiadau dirymu ('a' uchod) os cyflwynir hwy y tu allan i'r terfyn amser.

### **Effaith gwneud apêl**

18. Pan gyflwynir apêl yn erbyn hysbysiad dirymu, ni fydd y dirymu **yn dod i rym** tan y cyhoeddir y penderfyniad neu y tynnir yr apêl yn ei hôl.

19. Os gwneir apêl mewn perthynas â gwrthod trwydded, trosglwyddo, ildio, amrywio neu amodau, **ni fydd** cyflwyno apêl **yn gohirio'r** penderfyniad nac yn gweithredu'r amodau (gweler paragraff 20 isod).

20. Lle gwnaed apêl yn erbyn hysbysiad amrywio, hysbysiad gorfodi, hysbysiad gohirio neu ddilead tybiedig ar gais, **ni fydd** yr apêl **yn gohirio'r** hysbysiad.

21. Pan ddeuir ag apêl yn erbyn hysbysiad cau neu gychwyn gweithdrefn cau, **ni fydd** yr apêl **yn gohirio'r** hysbysiad.
22. Pan ddeuir ag apêl yn erbyn amod ar drwydded am weithgaredd gollwng dŵr, **ni fydd** yr amod **yn dod i rym** tan y penderfynir ar yr apêl neu y tynnir hi yn ei hôl.

### **Camau wedi i apêl ddod i law**

23. Pan ddaw apêl i law bydd yr Arolygiaeth yn gwirio dilysrwydd yr apêl ac, os bydd popeth mewn trefn, yn rhoi **dyddiad cychwyn** yr apêl i chi. Ar yr un diwrnod byddwn yn hysbysu'r rheoleiddiwr am ddyddiad cychwyn yr apêl.
24. Os byddwch wedi gofyn am i'r apêl fynd yn ei blaen drwy ddull sylwadau ysgrifenedig, byddwn yn gofyn i'r rheoleiddiwr gadarnhau eu bod yn cytuno â'r weithdrefn honno neu ddatgan fel arall eu bod am gyflwyno'u hachos ar lafar mewn gwrandawriad neu ymchwiliad. Ni fydd gan ba weithdrefn bynnag a ddefnyddir unrhyw effaith ar y penderfyniad, a fydd ar sail teilyngdod y dystiolaeth.
25. Cyn pen **10 niwrnod gwaith** o gael dyddiad cychwyn yr apêl mae'n rhaid i'r **rheoleiddiwr** hysbysu:
- unrhyw un sydd wedi gwneud sylwadau i'r rheoleiddiwr am faterion testun yr apêl;
  - unrhyw un y mae'n ymddangos i'r rheoleiddiwr fod ganddo fuddiant neilltuol yn yr apêl; ac
  - ymgynghoreion cenedlaethol perthnasol (at ei gilydd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy ar gam gwneud y cais).
26. Rhaid i'r rheoleiddiwr hysbysu'r partïon uchod fod apêl wedi ei gwneud a chan bwy, disgrifio'r cais neu'r drwydded mae a wnelo'r apêl ag ef neu â hi a datgan os ydynt am gyflwyno unrhyw sylwadau pellach, y dylid gwneud y rhain yn ysgrifenedig i'r Arolygiaeth Gynllunio cyn pen **15 niwrnod gwaith** i ddyddiad yr hysbysiad.
27. Dylai'r hysbysiad hefyd egluro y caiff unrhyw sylwadau a wneir i'r Arolygiaeth eu copïo i'r apelydd a'r rheoleiddiwr a'u gosod ar y Gofrestr Gyhoeddus<sup>4</sup>. Bydd y rheoleiddiwr yn cadarnhau wrth yr Arolygiaeth fod hyn wedi ei wneud.

## **GWEITHDREFNAU APELIO**

### **Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig**

---

<sup>4</sup> Mae'n ofynnol ar reoleiddiwr i gadw cofrestr ("cofrestr gyhoeddus") sy'n cynnwys gwybodaeth a ragnodir gan baragraff 1 Atodlen 24 (cofrestrau cyhoeddus) Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010, OS 2010 Rhif 675.

28. Mae'r weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin ag apêl yn gyfnewid datganiadau rhyngoch chi a'r rheoleiddiwr, yn cael ei dilyn gan ymweliad â'r safle gan Arolygydd a fydd yn penderfynu ar yr apêl. Dyma fel arfer y ffordd gyflymaf, symlaf a mwyaf cost-effeithiol o benderfynu ar apêl.

### **(i safleoedd rheoledig gan Cyfoeth Naturiol Cymru Rhan A1 yn unig)**

29. Ymdrinnir ag apeliadau yn ysbryd Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apeliadau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003, OS 2003 Rhif 390 (W.52). Gofynnir i chi a'r rheoleiddiwr anfon 2 gopi o'ch datganiad apêl at yr Arolygiaeth cyn pen **6 wythnos** i'r dyddiad cychwyn. Yna bydd gennych chi a'r rheoleiddiwr y cyfle i roi sylwadau ar yr holl ddatganiadau a sylwadau a gyflwynwyd (gan gynnwys y rhai a gafwyd gan bartïon sydd â buddiant) cyn pen **9 wythnos** i'r dyddiad cychwyn.

### **(i safleoedd rheoledig gan Awdurdodau Lleol (ALI) Rhan A2 a B yn unig)**

30. Bydd gweithdrefnau'r apêl yn dilyn y rhai a osodir ger bron ym mharagraff 30.16 y ddogfen ar y cyd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) a Defra *Llawlyfr Canllawiau Cyffredinol ar Bolisi a Gweithdrefnau i Safleoedd A2 a B*. Mae gan y rheoleiddiwr **28 niwrnod gwaith** o ddiwrnod cychwyn yr apêl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Arolygiaeth ac mae'n rhaid iddo anfon copi atoch chithau yr un pryd.

31. Os byddwch am ymateb i ddatganiad y rheoleiddiwr, dylech anfon eich sylwadau at yr Arolygiaeth cyn pen 17 niwrnod gwaith o gael sylwadau ysgrifenedig y rheoleiddiwr gan yr Arolygiaeth. Ar yr un pryd, mae'n rhaid i chi anfon copi o'ch sylwadau yn syth at y rheoleiddiwr.

32. Caiff unrhyw sylwadau a wnaed i'r Arolygiaeth gan bartïon sydd â buddiant eu copïo i chi ac i'r rheoleiddiwr. Gofynnir i chi a'r rheoleiddiwr anfon unrhyw sylwadau ar y llythyrau hyn at yr Arolygiaeth cyn pen **12 niwrnod gwaith**.

### **Ymweliad â'r Safle**

33. Ar ôl y terfyn amser terfynol ar gyfer sylwadau fynd heibio i bob math o safle, bydd Arolygydd yn ymweld â'r safle ar ddyddiad ac amser cytunedig. Y drefn arferol yw eich bod chi a/neu'ch cynrychiolydd a chynrychiolydd y rheoleiddiwr yn cael mynd gyda'r Arolygydd ar yr ymweliad â'r safle. Fodd bynnag, ni fydd yr Arolygydd yn caniatáu unrhyw drafod am deilyngdod yr achos a chyfyngir unrhyw gwestiynau i'r nodwedddion corfforol ar y safle sydd eisoes wedi eu codi mewn tystiolaeth ysgrifenedig.

### **Gwrandawiadau**

34. O dan amgylchiadau arferol cynhelir gwrandawriad yn gyhoeddus a chaiff ei gynnal yn ysbryd Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Gwrandawiadau) (Cymru) 2003, Os 2003 rhif 1271.

35. Fodd bynnag, ceir darpariaeth i'r Arolygydd benderfynu y gellir cynnal y gwrandawriad, naill ai'n gyfan neu'n rhannol, yn breifat. Mae hyn yn gymwys mewn achosion lle codir cyfrinachedd masnachol.



36. Mae gwrandawriad yn gadael i'r partïon gyflwyno'u hachos mewn awyrgylch mwy hamddenol a llai ffurfiol nag mewn ymchwiliad (gweler paragraff 40). Fel arfer bydd ar ffurf trafodaeth dan arweiniad yr Arolygydd, a fydd yn cael ei dilyn gan ymweliad â'r safle os bydd angen.
37. Gall y naill barti neu'r llall ofyn am wrandawriad, neu gall yr Arolygiaeth benderfynu bod angen gwrandawriad os ystyriwn fod y materion a godwyd yn y dystiolaeth yn haeddu cael eu trafod heb angen croesholi. Pan ofynnir am wrandawriad gan un o'r partïon, byddwn yn adolygu'r materion dan sylw ac yn penderfynu a oes cyfiawnhad dros gael gwrandawriad. Lle barna'r Arolygiaeth fod y materion yn rhai uniongyrchol, byddwn yn rhesymu y byddai'n fwy addas ymdrin â'r achos drwy ddull y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig; os bydd hi felly, ysgrifennwn atoch chi a'r rheoleiddiwr yn gofyn i chi gytuno ar y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig.
38. Gofynnir i'r rheoleiddiwr a chithau anfon 2 gopi o'ch datganiadau i'r gwrandawriad at yr Arolygiaeth cyn pen **6 wythnos** o'r dyddiad cychwyn. Byddwn wedyn yn cyfnewid y datganiadau hynny ac yn anfon ymlaen unrhyw sylwadau gan bartïon sydd â buddiant. Bydd gennych chi a'r rheoleiddiwr y cyfle i wneud unrhyw sylwadau ar y cyflwyniadau hynny cyn pen **9 wythnos** o'r dyddiad cychwyn.
39. Gosodir hysbysiad yn rhoi amserlen y gwrandawriad ar safle'r apêl ac mewn unrhyw fannau eraill y bernir eu bod yn briodol yn yr ardal 21 diwrnod cyn bod y gwrandawriad yn dechrau. Caniateir i drigolion lleol a phartïon eraill sydd â buddiant fynychu'r gwrandawriad, ac yn ôl doethineb yr Arolygydd, cânt roi'u safbwyntiau.

## Ymchwiliadau

40. Cynhelir ymchwiliadau yn ysbryd Rheolau Apelau Cynllunio Gwlad a Thref (Penderfyniad gan Arolygwyr) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2003, Os 2003 Rhif 1267, fel bo'n briodol.
41. Er y gall y naill barti neu'r llall ofyn am gael ei glywed mewn ymchwiliad cyhoeddus, yr Arolygiaeth fydd yn penderfynu a ddylid cynnal gwrandawriad neu ymchwiliad. Wrth ddod i'r penderfyniad hwnnw, byddwn yn rhoi ystyriaeth i'ch safbwyntiau chi a rhai'r rheoleiddiwr. Hyd yn oed pan na fydd y naill barti na'r llall wedi gofyn am gael eu clywed, gall yr Arolygiaeth benderfynu y byddai apêl yn cael ymdrin â hi'n fwyaf priodol mewn ymchwiliad. Ni weithredir mo'r disgresiwn hwn ond mewn achosion eithriadol, er enghraifft pan gyflwynnir tystiolaeth dechnegol neilltuol o gymhleth, neu pan fydd nifer fawr o sylwadau neu gryn dipyn o ddi-ddordeb cyhoeddus, neu pan fo yna faterion cyfreithiol digynsail.
42. Cyn pen **6 wythnos** i'r dyddiad cychwyn, mae'n rhaid i chi a'r rheoleiddiwr gyflwyno 2 gopi o'ch datganiad i'r Arolygiaeth gan roi manylion llawn yr achos sydd i'w gyflwyno yn yr ymchwiliad. Byddwch chi a'r rheoleiddiwr yn cael cyfle i roi sylwadau ar ddatganiadau eich gilydd ac unrhyw sylwadau gan bartïon sydd â buddiant cyn pen **9 wythnos** o'r dyddiad cychwyn. Ddim hwyrach na 4 wythnos cyn yr ymchwiliad, dylai datganiadau tystiolaeth ysgrifenedig a datganiad o dir cyffredin hefyd gael eu cyflwyno.

43. Datganiad ysgrifenedig o dystiolaeth yw datganiad o'r dystiolaeth mae tyst yn bwriadu ei rhoi yn yr ymchwiliad. Os bydd eich datganiad ysgrifenedig o dystiolaeth yn fwy na 1,500 o eiriau o hyd, dylech hefyd gyflwyno crynodeb heb fod yn fwy na 10% o hyd y datganiad ysgrifenedig. Datganiad o dir cyffredin yw rhestr o'r holl faterion rydych yn cytuno arnynt a dylai gael ei lofnodi gennych chi a'r rheoleiddiwr.
44. Mae ymchwiliad yn fwy ffurfiol na gwrandawriad ac fel arfer yn dechrau gyda datganiadau agoriadol byr gennych chi a'r rheoleiddiwr. Yna gall y ddau barti alw ar eu tystion i roi tystiolaeth. Yna gall tystion gael eu croesholi gan yr ochr arall. Y rheoleiddiwr fydd fel arfer yn cyflwyno ei achos yn gyntaf. Gall partïon sydd â buddiant hwythau fynychu'r ymchwiliad ac fel arfer caniateir iddynt roi'u safbwyntiau yn ôl doethineb yr Arolygydd.
45. Fel ym mharagraff 39 uchod, gosodir hysbysiad safle yn manylu ar y trefniadau ar gyfer yr ymchwiliad ar safle'r apêl a mannau eraill yn yr ardal 21 diwrnod cyn mae'r ymchwiliad i fod i ddechrau. Gall partïon sydd â buddiant fynychu a siarad yn ôl doethineb yr Arolygydd. Gall yr Arolygydd gynnal rhan o'r ymchwiliad neu'r cyfan ohono yn breifat pan fydd yna faterion o gyfrinachedd masnachol neu ddiogelwch gwladol.

## **PENDERFYNIADAU AR APELIADAU**

### **Penderfyniad yr Arolygydd**

46. Bydd y penderfyniad yn cynnwys y pwyntiau pwysig a pherthnasol sy'n arwain at benderfyniad yr Arolygydd. Gall yr Arolygydd gadarnhau neu ddileu penderfyniad neu hysbysiad y rheoleiddiwr a gall gyfarwyddo'r rheoleiddiwr i ganiatáu trwydded neu amrywio'r amodau arni. Anfonir penderfyniad yr Arolygydd at yr apelydd a'r rheoleiddiwr ar yr un pryd â'i gilydd. Anfonir copïau at y partïon sydd â buddiant pan fydd cais wedi ei wneud am hyn, oni bai bod a wnelo'r mater â chyfrinachedd. Caiff y penderfyniad hefyd ei osod ar y Gofrestr Gyhoeddus.

### **Penderfyniadau gan Weinidogion Cymru**

47. Yn yr achosion hyn, pan wneir penodiad yn unol â pharagraff 5 Atodlen 6 y Rheoliadau, bydd yr Arolygydd yn anfon adroddiad i Weinidogion Cymru. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r dadleuon a'r dystiolaeth a gyflwynwyd, dod i gasliad ar y dystiolaeth honno, a gwneud argymhelliad a ddylid caniatáu'r apêl ai peidio. Yna bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried yr adroddiad ac yn cyhoeddi penderfyniad a fydd yn cael ei anfon at yr apelydd a'r rheoleiddiwr ynghyd â chopi o adroddiad yr Arolygydd.

## **PWYNTIAU ERAILL**

### **Tynnu apeliadau yn eu hôl**

48. Gallwch dynnu apêl yn ei hôl ar unrhyw adeg; i wneud hynny bydd rhaid i chi anfon hysbysiad ysgrifenedig i'r Arolygiaeth Gynllunio ac anfon copi ohono'n syth at y rheoleiddiwr.

### **Apeliadau Cyfrinachedd Masnachol**

49. Os bydd y rheoleiddiwr wedi penderfynu y dylai gwybodaeth gael ei gosod ar y Gofrestr Gyhoeddus, gall unrhyw wrthwynebydd sydd â buddiant masnachol y gellir effeithio arno drwy gynnwys gwybodaeth benodol apelio at Weinidogion Cymru o dan reoliad 53, ar y sail y dylid ei hystyried yn fasnachol gyfrinachol. Dylid cyflwyno apeliadau cyn pen 15 niwrnod gwaith o ddyddiad rhoi'r hysbysiad o benderfyniad. Ni ddylai'r rheoleiddiwr gynnwys y wybodaeth sy'n destun yr apêl ar y gofrestr gyhoeddus tan y penderfynir ar yr apêl.

50. Bydd y gweithdrefnau ar gyfer y math hwn o apêl yn dilyn yr un weithdrefn ag apeliadau sy'n cael eu penderfynu gan unigolyn a benodir (paragraff 5 Atodlen 6) yn erbyn apeliadau trwyddedau fel a osodir ger bron uchod, ar wahân i fod gwrandawiadau / ymchwiliadau yn cael eu cynnal yn gyfan neu'n rhannol yn breifat (gweler paragraff 5(2) Atodlen 6).

51. Bydd yr Arolygydd yn penderfynu:

- a. a yw'r wybodaeth berthnasol i'w dosbarthu yn fasnachol gyfrinachol ac y dylai felly gael ei chadw oddi ar Gofrestr Gyhoeddus y rheoleiddiwr (statws i'w adolygu ar ôl 4 blynedd mewn rhai achosion); neu
- b. nad yw'r wybodaeth berthnasol yn fasnachol gyfrinachol, ac felly y dylai'r rheoleiddiwr ei gosod hi ar y Gofrestr Gyhoeddus.

### **Aseswyr**

52. Yn eithriadol, mewn rhai achosion gall asesydd gael ei benodi gan yr Arolygiaeth Gynllunio (yn unol â pharagraff 4(4) Atodlen 20 Deddf yr Amgylchedd 1995) ar ran Gweinidogion Cymru i gynghori'r Arolygydd ar faterion penodol gyfreithiol, wyddonol neu dechnegol. Bydd yr asesydd yn mynychu'r ymchwiliad gyda'r Arolygydd ac yn ystyried y sylwadau a wneir. Bydd yr asesydd yn ysgrifennu adroddiad yn cynghori'r Arolygydd ar faterion penodol. Gwneir yr adroddiad yn gyhoeddus pan gyhoeddir y penderfyniad (oni bai bod yna faterion cyfrinachedd).

53. Pan benodir asesydd, hysbysir pawb sydd â hawl i ymddangos yn yr ymchwiliad o enw'r asesydd a'r materion y bydd ef/hi yn cynghori'r Arolygydd arnynt.

### **Costau**

54. Mae paragraff 5 Atodlen 6 y rheoliadau yn cymhwysu Adran 250 Deddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd gan is-baragraff (6) yr Atodlen) at wrandawiadau ac ymchwiliadau a chyfeiria Atodlen 20 at Adran 114 Deddf yr Amgylchedd 1995 mewn perthynas ag 'unigolion a benodir'.

55. Er na chodir tâl am gyflwyno apêl, bydd yn rhaid i chi a'r rheoleiddiwr dalu am eich treuliau'ch hunain. Fodd bynnag, os yw'r apêl i gael ei

phenderfynu gan wrandawriad neu ymchwiliad, yna gellir gwneud cais am gostau a'u dyfarnu ar y sail bod ymddygiad afresymol y parti arall wrth gynnal y gweithgareddau wedi achosi i barti fynd i gostau diangen neu wastraffus.

56. Fel arfer clywir ceisiadau am gostau ar ddiwedd y gweithgareddau a chânt eu caniatáu dim ond os gall y parti sy'n eu hawlio ddangos bod yr ochr arall wedi ymddwyn yn afresymol ac wedi peri iddynt fynd i dreuliau diangen.
57. Yn dilyn cais am gostau, bydd yr Arolygydd neu Weinidogion Cymru yn ymddwyn yn ysbryd Cylchlythyr 23/93 y Swyddfa Gymreig ar *Ddyfarnu Costau yr Aed Iddynt mewn Cynllunio ac Eraill (Yn Cynnwys gweithgareddau Gorchymyn Prynu Gorfodol)* a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 1993. Ni ellir ystyried cais am gostau dim ond pan fydd 'digwyddiad' (h.y. gwrandawriad neu ymchwiliad) wedi ei gynnal.

### **Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol**

58. Os byddwch yn cymryd rhan mewn apêl, bydd y math o wybodaeth bersonol a geir yn eich sylwadau yn cynnwys eich enw, eich manylion cyswllt fel arfer ac unrhyw wybodaeth bersonol arall y byddwch yn penderfynu ei rhoi.
59. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i brosesu'r apêl, ac mae hyn yn cynnwys sicrhau bod eich sylwadau ysgrifenedig ar gael i'r apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol a phartion statudol eraill.
60. Rydym yn cyhoeddi dogfennau apêl a sylwadau, gan gynnwys enwau a chyfeiriadau, ar y Porth Cynllunio. Caiff rhifau ffôn, rhifau ffacs a chyfeiriadau e-bost eu dileu cyn cyhoeddi. Rydym hefyd yn cyhoeddi penderfyniad yr arolygydd.
61. Mae'r arweiniad yn y daflen hon yn esbonio'r broses apelio'n fanylach ac fe'ch cynghorir i ddarllen y daflen hon cyn rhoi unrhyw sylwadau. Am ragor o fanylion, gweler ein datganiad preifatrwydd:  
[www.planningportal.gov.uk/planning/appeals/online/about/privacystatement](http://www.planningportal.gov.uk/planning/appeals/online/about/privacystatement)
62. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'n defnydd o wybodaeth bersonol, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod.

### **Gwybodaeth ychwanegol**

63. Mae mwy o wybodaeth am ein polisi cyfrinachedd ar gael ar ein gwefan yn [www.planning-inspectorate.gov.uk](http://www.planning-inspectorate.gov.uk), neu ar gais. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am ein polisi, neu os ydych am wneud cais am eich data personol, cysylltwch â ni drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a geir yn yr adran nesaf.

### **Cysylltu â ni**

64. Gallwch gysylltu â'r Arolygiaeth Gynllunio yn y cyfeiriad isod:

Yr Arolygiaeth Gynllunio

Adeiladau'r Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3866  
Ffacs: 029 2082 5150  
E-bost: [wales@pins.gsi.gov.uk](mailto:wales@pins.gsi.gov.uk)

### **Cwynion am y penderfyniad**

65. Mae'r penderfyniad ar eich apêl yn derfynol; ar ôl ei gyhoeddi, ni all Gweinidogion Cymru na'r Arolygydd ystyried sylwadau pellach na gwneud unrhyw sylwadau ar deilyngdod yr achos nac fel arall.

66. Ni ellir herio'r penderfyniad ond yn y llysoedd drwy adolygiad barnwrol. Dylid gwneud cais am ganiatâd i gael adolygiad barnwrol yr Uchel Lys Cyfiawnder. Dylid gwneud hynny rhag blaen a beth bynnag heb fod yn fwy na 3 mis ar ôl dyddiad y penderfyniad.

67. Os caiff apêl ei dileu yn dilyn achos o flaen unrhyw lys, hysbysir y prif bartïon a gofynnir iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau pellach cyn pen 28 niwrnod. Gall Gweinidogion Cymru yna ofyn i wrandawriad gael ei gynnal neu ei ailagor a chaiff yr apêl ei hailbenderfynu.

### **Cwynion am yr Arolygiaeth Gynllunio**

68. Bydd y llythyrau yn cydnabod derbyn yr apêl yn rhoi enw Swyddog yr Achos. Os bydd gennych unrhyw gwynion am sut mae'ch apêl yn cael ei thrin ar unrhyw gam dylech gysylltu â'r Swyddog Cwynion yn y cyfeiriad a ganlyn:

Y Swyddog Cwynion  
Yr Arolygiaeth Gynllunio  
Adeiladau'r Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3889  
Ffacs: 029 2082 5150  
E-bost: [wales@pins.gsi.gov.uk](mailto:wales@pins.gsi.gov.uk)

69. Byddwn yn ymchwilio i'ch cwyn a gallwch ddisgwyl ateb llawn cyn pen tair wythnos. Fodd bynnag, ni allwn ailystyried apêl os bydd penderfyniad wedi ei roi'n barod arni. Yr unig ffordd i herio'r penderfyniad yw yn y llysoedd drwy adolygiad barnwrol.

**Y CEFNDIR CYFREITHIOL**

**Y BRIF DDEDDFWRIAETH**

**Cyfarwyddeb Cyngor yr UE 2008/1/EC ynghylch Atal a Rheoli Llygredd mewn Ffordd Integredig (Cyfarwyddeb yr IPPC)**

Diben y gyfarwyddeb hon yw sicrhau atal a rheoli integredig ar rai gweithgareddau, gyda mesurau wedi'u bwriadu i rwystro (neu o leiaf leihau) allyriadau i'r awyr, i ddŵr ac i'r tir er mwyn sicrhau lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd o'u cymryd gyda'i gilydd.

**Deddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 (c.24)**

Y Ddeddf sy'n gwneud darpariaethau, o dan reoliad 2, ar gyfer gweithredu'r Gyfarwyddeb uchod yn rhan o gyfraith y DU a galluogi i Weinidogion Cymru lunio unrhyw reoliadau cysylltiedig.

**IS-DDEDDFWRIAETH**

**Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010, OS 2010 Rhif 675**

**Mae'r rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer system gyfunol o drwyddedu ar gyfer rhai gweithgareddau a allai niweidio'r amgylchedd ac iechyd dynol. Mae'r drefn yn disodli ac yn ymestyn yr hyn a ddarperid ar ei gyfer yn Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol 2007 a hefyd yn trosi darpariaethau 18 Cyfarwyddeb yr UE.**

**PRIF GYFARWYDDEBAU CYSYLLTIEDIG Y CE**

**Cyfarwyddeb Cyngor yr UE 2006/12/EC ar Wastraff (y Gyfarwyddeb Gwastraff)**

Mae'r Gyfarwyddeb hon yn mynnu bod yr aelod-wladwriaethau yn sicrhau bod gwastraff yn cael ei adfer neu ei waredu drwy brosesau / ddulliau nad ydynt yn niweidio'r amgylchedd. Mae'n mynnu bod rhwymedigaethau yn cael eu gosod ar y sawl sy'n ymdrin â gwastraff ar gamau gwahanol, gan gynnwys dalwyr, casglwyr a chlodwyr gwastraff.

**Cyfarwyddeb Cyngor yr UE 99/31/EC ar Dirlenwi Gwastraff (y Gyfarwyddeb tirlenwi)**

Amcan cyffredinol y Gyfarwyddeb hon yw ategu'r Gyfarwyddeb Gwastraff a rhwystro / lleihau cyn belled ag sy'n ymarferol effeithiau niweidiol cael gwared ar wastraff drwy dirlenwi ar yr amgylchedd ac iechyd dynol. Cyflawnir hyn drwy fod â safonau a gofynion technegol unffurf ar gyfer lleoliad, rheolaeth, peirianeg, cau a monitro safleoedd tirlenwi. Mae'r Gyfarwyddeb hefyd yn mynnu dargyfeirio cynyddol ar wastraff trefol bioddiraddadwy oddi wrth dirlenwi.

### **Cyfarwyddeb Cyngor yr UE 2000/53/EC ar Gerbydau ar Ddiwedd eu Hoes (y Gyfarwyddeb ELV)**

Mae'r Gyfarwyddeb hon hefyd yn atodi'r Gyfarwyddeb Gwastraff, yn rhwystro gwastraff o gerbydau drwy ailddefnyddio, ailgylchu / adfer cerbydau ar ddiwedd eu hoes a'u cydrannau, lleihau'r gwaredu ar wastraff cerbydau, gan y gweithredwyr sydd a wnelont â phob cam ar fywyd cerbydau ac yn enwedig y gweithredwyr sydd a wnelont â thrin cerbydau ar ddiwedd eu hoes.

### **Cyfarwyddeb Cyngor yr UE 2002/96/EC ar Wastraff Trydanol ac Offer Electronig (y Gyfarwyddeb WEEE)**

Mae'r Gyfarwyddeb WEEE hefyd yn atodi'r Gyfarwyddeb Gwastraff ac yn gwneud darpariaethau ar gyfer rhwystro gwastraff, ailddefnyddio, ailgylchu / adfer WEEE, lleihau'r gwaredu ar y llif gwastraff hwn. Mae hefyd yn manylu ar y triniaethau angenrheidiol.

### **Cyfarwyddeb Cyngor yr UE 2000/76/EC ar Losgi Gwastraff (y Gyfarwyddeb Llosgi Gwastraff)**

Ceisio'r Gyfarwyddeb hon rwystro neu gyfyngu cyn belled ag sy'n ymarferol yr effeithiau negyddol ar yr amgylchedd a'r peryglon i iechyd dynol gan lygredd drwy allyriadau i'r awyr, y pridd, i ddŵr arwyneb neu ddŵr daear oddi wrth losgi a chyd-losgi gwastraff. Cyflawnir hyn drwy amryw o amodau gweithredu, gofynion technegol a gwerthoedd terfyn allyriadau.

### **Cyfarwyddeb Cyngor yr UE 2000/60/EC ar Ddŵr (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr)**

**Mae'r Gyfarwyddeb hon yn integreiddio gofynion nifer o Gyfarwyddebau sy'n bod ac yn cyflwyno amcanion ecolegol newydd i rwystro dirywiad pellach ar ecosystemau dŵr; diogelu a chryfhau eu statws; hyrwyddo defnydd cynaliadwy ar ddŵr a lliniaru effeithiau llifogydd a sychderau.**

### **Cyfarwyddeb Cyngor yr UE 2006/21/EC ar reoli gwastraff o'r diwydiannau echdynnol (y Gyfarwyddeb Gwastraff Cloddio)**

**Mae'r Gyfarwyddeb hon yn cynnig mesurau i rwystro neu leihau cyn belled â phosibl unrhyw effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd ac iechyd dynol o reoli gwastraff o gloddio a diwydiannau echdynnol eraill.**

### **Cyfarwyddeb Cyngor yr UE 2006/66/EC ar fatris a chronaduron (y Gyfarwyddeb Batris)**

**Mae'r Gyfarwyddeb hon yn ategu'r Gyfarwyddeb Gwastraff ac yn ceisio gwella'r cynaliadwyedd drwy gydol cylch bywyd batris a chronaduron (batris ailwefradwy) o gynhyrchu at drin gwastraff ac ailgylchu.**

## **CANLLAWIAU**

### **Canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC): Canllawiau Craidd Trwyddedu Amgylcheddol i Ran A1 Safleoedd ac Offer Symudol, LICC/ Defra**

Cwmpas y canllawiau hyn yw cynnig cyngor cynhwysfawr i'r rhai sy'n gweithredu, rheoleiddio neu sydd â diddordeb mewn cyfleusterau a ddaw o dan Reoliadau Senedd Ewrop a'r rheoleiddio arnynt gan **Cyfoeth Naturiol Cymru**. Mae'n gosod ger bron darpariaethau'r rheoliadau a safbwyntiau'r Ysgrifennydd Gwladol (YsG) sydd â chyfrifoldeb dros Defra a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar sut y gellir eu cymhwyso a'u dehongli. Mae'r canllawiau perthnasol i apelïadau ym Mhennod 12.

### **Canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC): Llawlyfr Canllawiau Cyffredinol ar Bolisi a Gweithdrefnau Trwyddedu Amgylcheddol ar gyfer Safleoedd A2 a B, LICC/ Defra**

Y llawlyfr hwn yw'r prif ganllawiau a gyhoeddir gan yr YsG a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar weithgareddau a reoleiddir gan Awdurdodau Lleol a rhoddant gyngor ymarferol ar weithredu'r gyfundrefn reoli llygredd sydd dan reolaeth Awdurdodau Lleol a sut gellir ei chymhwyso a'i dehongli. Mae'r canllawiau ar apelio i'w cael ym mhennod 30.

### **Canllawiau Penodol ar Gyfarwyddebau:**

#### **Rhan A1:**

#### **Canllawiau Penodol ar y Gyfundrefn (RSG), LICC / Defra**

Mae'r dogfennau hyn yn dod gyda'r Rheoliadau i ddisgrifio'r trwyddedu cyffredinol, y gofynion cydymffurfio a'r canllawiau ar gyfer cyfundrefnau penodol yn y fframwaith EP; mae'r rhain yn cynnwys gweithrediadau gwastraff wedi eu heithrio, Rheoleiddio Sylweddau Ymbelydrol (RSR) a Gweithgareddau Gollwng Dŵr. Dylid darllen y canllawiau ar y cyd â'r Canllawiau Craidd a ddisgrifir uchod.

#### **Nodiadau Canllawiau Penodol i'r Gyfarwyddeb (DGN), LICC/ Defra**

Mae'r dogfennau hyn yn dod gyda'r rheoliadau ac yn disgrifio'r trwyddedu cyffredinol, gofynion cydymffurfio a'r canllawiau ar bob un o Gyfarwyddebau'r UE a weithredir drwy gyfundrefn yr EP a dylid eu darllen ar y cyd â'r Canllawiau Craidd a ddisgrifir uchod.

### **Canllawiau Penodol i'r Sector:**

#### **Rhan A1:**

#### **Nodiadau Canllawiau Llorweddol (HGN), Asiantaeth yr Amgylchedd**

Cyfres o nodiadau canllaw sydd a wnelont â phob sector ac ynghylch materion penodol fel allyriadau arogleuon, Asesiad Risg Amgylcheddol, adroddiadau sŵn ac amodau safle. Ar hyn o bryd mae'r rhain wrthi'n cael eu diweddarau ac mae rhai ohonynt yn dal mewn bod.



## **Nodiadau Canllawiau Rheolaethol (EPR), Asiantaeth yr Amgylchedd**

Mae hon yn gyfres o nodiadau canllaw ar ddehongli'r rheoliadau a'r materion rheolaethol wedi eu cynhyrchu gan staff yr Asiantaeth i'w cynorthwyo wrth benderfynu ar geisiadau EP.

## **Nodiadau Canllawiau Technegol (TGN), Asiantaeth yr Amgylchedd**

Anela'r nodiadau canllaw hyn at gynnig cyngor i weithredwyr a rheoleiddwyr ar y safonau dangosol o weithredu a pherfformio amgylcheddol sy'n berthnasol i sectorau penodol, gan ganiatáu asesu'r cydymffurfio gyda rheoliadau a chyflwyno'r Technegau Gorau Ar Gael (BAT) i'r sector hwnnw a gosod ger bron egwyddorion BAT (o ddogfennau Cyfeirio EC BAT- BREFau) sydd i'w hystyried wrth benderfynu ar geisiadau. Ar hyn o bryd mae'r rhain wrthi'n cael eu diweddarau ac mae'r TGNau atal a rheoli llygredd perthnasol yn dal mewn bod.

### **Rhan A2:**

#### **Nodiadau Canllawiau Sector Awdurdodau Lleol (SGN), LICC / Defra**

Canllawiau statudol a gyhoeddir gan yr YsG a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gweithgareddau diwydiannol LA-IPPC Rhan A2 penodol, sy'n rhoi manylion am y gofynion mandadol sy'n effeithio ar allyriadau ac effeithiau o safleoedd ac asesiadau BAT cyffredinol. Mae'r rhain wrthi'n cael eu diweddarau ar hyn o bryd ac mae'r SGNau presennol yn dal mewn bod.

### **Rhan B:**

#### **Nodiadau Canllawiau Proses Awdurdodau Lleol (PGN), LICC /Defra**

Canllawiau statudol a gyhoeddir gan yr YsG, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Gweithrediaeth yr Alban ar weithgareddau diwydiannol penodol sy'n rhoi manylion am ofynion mandadol sy'n effeithio ar allyriadau i'r awyr o safleoedd LAPPC Rhan B a chanllawiau ar asesiad BAT/Technegau Gorau Ar Gael Heb Fynd i Gost Ormodol (BATNEEC). Mae'r rhain wrthi'n cael eu diweddarau ar hyn o bryd ac mae'r PGNau presennol yn dal mewn bod.

#### **Nodiadau Ansawdd Aer (AQ), LICC /Defra**

Nodiadau canllaw ychwanegol a gyhoeddwyd gan Defra a Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi'r ddiweddaraf ar faterion rheoli llygredd diwydiannol gan awdurdodau lleol. Mae rhai bellach wedi eu hymgorffori yn llawlyfr canllawiau'r EP.

**ACHOSION WEDI'U HADFER**

1. Mae'r rhain yn achosion o arwyddocâd mawr mae Gweinidogion Cymru yn eu hadfer yn unol â pharagraff 5 Atodlen 6 y Rheoliadau. Yn yr achosion hyn, bydd yr arolygydd yn cynnal ymweliad â'r safle, gwrandawriad neu ymchwiliad yn y ffordd arferol ond yna'n paratoi adroddiad i Weinidogion Cymru. Bydd adroddiad ysgrifenedig yr Arolygydd yn cynnwys ei gasgliadau ef neu ei chasgliadau hi, argymhellion neu resymau dros beidio â gwneud argymhellion. Gweinidogion Cymru fydd wedyn yn gwneud y penderfyniad terfynol.
2. Edrychir ar bob achos ar ei ben ei hun ac nid yw'n bosibl rhagweld pa fath o apêl a allai fod yn y categori hwn, ond gallant gynnwys er enghraifft:
  - achosion sydd a wnelont â phrosesau neu safleoedd o bwysigrwydd mawr;
  - achosion sy'n ysgogi dadlau cyhoeddus sylweddol;
  - achosion sy'n codi materion cyfreithiol arwyddocaol;
  - achosion na ellir penderfynu arnynt ond ar y cyd ag achosion eraill nad oes gan yr Arolygwyr ddim awdurdodaeth drostynt; ac
  - achosion sy'n codi materion mawr neu newydd ynghylch rheoli llygredd a allai osod cynsail polisi (er enghraifft achosion sydd a wnelont â thechnegau newydd).
3. Yn eithriadol, gall fod achosion eraill a allai ofyn am gael eu hadfer oherwydd amgylchiadau neilltuol. Er enghraifft, gellir bod angen adfer rhai achosion sydd a wnelont â chyfrinachedd masnachol er nad y cyfan o bell ffordd.
4. Mae hefyd yn bosibl y gall amgylchiadau'r achosion sydd wedi'u hadfer newid wrth i'r apeliadau fynd yn eu blaenau (e.e. os caiff apêl ar y cyd nad oes gan yr Arolygydd awdurdodaeth drosti ei thynnu'n ôl). Mewn achosion o'r fath gall yr apêl ddychwelyd i gael ei phenderfynu gan yr Arolygydd.

**SIART LLIF Y WEITHDREFN**

